# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Gorchmynion cyflogau amaethyddol*

## 3 Gorchmynion cyflogau amaethyddol

(1) Mae gorchymyn cyflogau amaethyddol yn orchymyn sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyfraddau tâl isaf gweithwyr amaethyddol ac ynghylch telerau ac amodau cyflogaeth eraill y gweithwyr hynny.

(2) Caiff gorchymyn cyflogau amaethyddol, yn benodol, gynnwys darpariaeth—x

(a) sy'n pennu'r cyfraddau tâl isaf sydd i'w talu i weithwyr amaethyddol (gan gynnwys cyfraddau ar gyfer cyfnodau pan fo gweithwyr o'r fath yn absennol o ganlyniad i salwch neu anaf);

(b) ynghylch unrhyw fuddion neu fanteision y caniateir iddynt, at ddibenion cyfradd tâl isaf, gael eu hystyried yn dâl yn lle taliad arian parod;

(c) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gweithwyr amaethyddol ganiatáu i weithwyr o'r fath gymryd unrhyw wyliau ac absenoldeb arall a bennir yn y gorchymyn.

(3) Caiff gorchymyn cyflogau amaethyddol bennu cyfraddau gwahanol a gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer gweithwyr amaethyddol o ddisgrifiadau gwahanol.

(4) Ni chaniateir i orchymyn cyflogau amaethyddol gynnwys unrhyw ddarpariaeth ynghylch pensiynau gweithwyr amaethyddol.

(5) Ni chaniateir pennu cyfradd tâl isaf mewn gorchymyn o dan yr adran hon sy'n llai na'r isafswm cyflog cenedlaethol.

## 4 Gorchmynion cyflogau amaethyddol: pwerau Gweinidogion Cymru

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl cael gorchymyn cyflogau amaethyddol drafft oddi wrth y Panel—

(a) cymeradwyo a gwneud y gorchymyn, neu

(b) cyfeirio'r gorchymyn yn ôl at y Panel i'w ystyried ymhellach a'i ailgyflwyno.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, o'u pen a'u pastwn eu hunain, wneud gorchmynion cyflogau amaethyddol hyd nes bod y Panel wedi ei sefydlu.

(3) Cyn gwneud gorchymyn cyflogau amaethyddol o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau neu'r cyrff hynny sy'n debygol o fod â buddiant yn y gorchymyn yn eu barn hwy.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ynghylch gorchmynion cyflogau amaethyddol gan gynnwys, yn benodol, ddarpariaeth—

(a) ynghylch ffurf a chynnwys gorchymyn, a

(b) ynghylch y weithdrefn i'w dilyn a'r ymgynghori i'w gynnal mewn perthynas â gorchymyn.